INTERNATIONAL@

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Campus Life

# Trosglwyddiadau Meistr Integredig (Fisa a CAS)

**Rheolau UKVI** - Ystyrir eich bod yn newid cwrs os byddwch yn trosglwyddo i raglen Meistr integredig e.e **MEng/MSci/MChem/MPhys**. Os newidiwch eich cwrs, mae'n rhaid i chi gael Fisa Myfyriwr newydd dramor neu mae'n rhaid eich bod chi wedi cyflwyno cais am un yn y DU cyn y gallwch ddechrau Lefel 3.

Gallwch gyflwyno cais am Fisa Myfyriwr newydd naill ai dramor neu yn y DU o ganol mis Gorffennaf ar ôl cyfarfod Bwrdd Arholi mis Gorffennaf, neu ym mis Medi os oes gennych arholiadau i'w hailsefyll ym mis Awst.

## Ble i gyflwyno cais

### Cyflwyno cais y tu allan i'r DU

Os penderfynwch gyflwyno cais dramor, argymhellwn wneud hynny cyn gynted â phosibl gan y gall gymryd llawer mwy o amser i brosesu ceisiadau fisa yn ystod misoedd yr haf wrth i nifer y myfyrwyr sy'n cyflwyno ceisiadau am fisa i ddod i'r DU gynyddu. Bydd angen i chi dalu'r ffioedd cais am fisa a'r gordal iechyd mewnfudo (IHS) eto. Ni thelir ad-daliadau am unrhyw daliadau IHS blaenorol. Bydd angen i chi gyflwyno datganiadau banc/dogfennau benthyciad addysg/tystiolaeth o nawdd ariannol swyddogol sy'n dangos arian digonol i dalu ffioedd dysgu a chostau byw'r flwyddyn academaidd nesaf. Rhaid bod gennych eich fisa NEWYDD cyn y cewch gofrestru ar gyfer eich cwrs gradd Meistr integredig sy'n dechrau ym mis Medi, felly mae'n bwysig i chi gyflwyno cais am y fisa newydd cyn gynted â phosib cyn y disgwylir i chi ddychwelyd i Abertawe - gall gymryd sawl wythnos i gael fisa dramor.

### Cyflwyno cais yn y DU

Bydd angen i chi dalu'r ffioedd cais am fisa a'r gordal iechyd mewnfudo (IHS) pan fyddwch yn cyflwyno'r cais ond *dylech* gael ad-daliad ar gyfer yr IHS am unrhyw gyfnod sy'n gorgyffwrdd â'r fisa flaenorol.

Gan eich bod chi wedi bod yn astudio yn y DU am 12 mis neu fwy ar adeg cyflwyno’r cais, mae'n debygol na fydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch sefyllfa ariannol.

Fodd bynnag, os ydych chi wedi bod yn byw yn y DU am lai na 12 mis, bydd angen i chi baratoi tystiolaeth ariannol naill ai ar ffurf datganiad banc, llythyr benthyciad addysgol neu nawdd swyddogol sy'n profi bod gennych ddigon o arian i dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw.

Mae'n rhaid eich bod chi wedi cyflwyno'ch cais am fisa cyn diwedd y cyfnod cofrestru ar gyfer Lefel 3 ym mis Medi/Hydref neu cyn i'ch fisa bresennol ddod i ben, **pa un bynnag a ddaw gyntaf.**

Pan fyddwch chi wedi cyflwyno cais am eich fisa, gallwch gofrestru gan ddefnyddio prawf o'ch cais am fisa ar-lein (lawrlwythwch gopi PDF o'ch cais am fisa ar-lein a'r rhestr wirio dogfennau). Ni chaiff eich trosglwyddiad Meistr integredig ei gymeradwyo a'i gadarnhau tan y byddwch wedi derbyn eich fisa newydd a phan fydd copi o'ch statws mewnfudo newydd wedi'i anfon i cas.compliance@abertawe.ac.uk

### Beth y mae angen imi ei wneud a phryd?

- Mis Ebrill (Lefel 2) Bydd eich Ysgol yn eich gwahodd i drosglwyddo i fersiwn Meistr integredig eich cwrs os ydych yn gymwys – os felly, llenwch y ffurflenni trosglwyddo
- Mis Ebrill/Mis Mai (Lefel 2) - Cyflwynwch gais am CAS newydd gan y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr a chyflwyno cais am ATAS (os yw hynny'n berthnasol)
- Mis Mehefin (Lefel 2) - Rhowch yr arian gofynnol yn y cyfrif banc a'i gadw yno, os oes ei angen
- Mis Gorffennaf - fis Medi (Lefel 2) - Cyflwynwch gais am fisa ar ôl i'ch canlyniadau gael eu cadarnhau a'ch CAS gael ei ddarparu

### A oes angen ATAS (Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd) arnaf?

Mae gwiriad diogelwch ychwanegol ar gyfer rhai cyrsiau. Os oes angen cymeradwyaeth ATAS ar gyfer eich cwrs, **RHAID** i chi gyflwyno'r dystysgrif ATAS newydd fel rhan o'ch cais am fisa a bydd ei hangen arnoch hefyd cyn y gallwch gofrestru ar gyfer lefel nesaf eich cwrs. **Cofiwch gyflwyno cais yn gynnar gan y gall gymryd rhwng 8 a 12 wythnos i brosesu ceisiadau ATAS.** Y cyrsiau MEng/MPhys y mae angen ATAS arnynt yw:

- MEng Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg CAH 10-03-02
- MEng Peirianneg Gemegol CAH 10-01-09
- MEng Peirianneg Awyrofod CAH 10-01-04
- MEng Peirianneg Fecanyddol CAH 10-01-02
- MPhys Ffiseg CAH07-01-01

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar wefan ATAS a chewch fanylion y cyrsiau drwy'r dolenni isod.
https://www.gov.uk/guidance/academic-technology-approval-scheme

### Beth os oes angen i mi ailsefyll arholiadau ym mis Awst?

Ni allwch gyflwyno cais am eich fisa tan ar ôl i'ch canlyniadau gael eu cyhoeddi tua chanol mis Medi ac mae'n rhaid i chi fodloni gofynion academaidd y cwrs hefyd. Os byddwch chi dramor ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno cais am fisa mewn da bryd i ddychwelyd i gofrestru ym mis Medi, gallwch ddychwelyd i'r DU gan ddefnyddio eich fisa bresennol ar yr amod ei bod yn ddilys o hyd a'ch bod yn cyflwyno cais i'w hymestyn pan fyddwch chi yn ôl yn y DU drwy MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws. Ar ôl i chi ddod yn ôl i'r DU, mae'n **RHAID** i chi ymestyn eich fisa **cyn** i'r un bresennol ddod i ben.

Argymhellwn eich bod yn cyflwyno cais o hyd am ATAS ym mis Gorffennaf - nid oes angen i chi aros am y canlyniadau ailsefyll. Nid oes ffi am gyflwyno cais am ATAS a thrwy gyflwyno cais ym mis Gorffennaf, bydd gennych ddigon o amser i dderbyn yr ATAS cyn cofrestru a chyflwyno cais am fisa ym mis Medi/Hydref.

### Sut gallaf gyflwyno cais am rif CAS newydd?

Os ydych chi'n cyflwyno cais am CAS i drosglwyddo o BEng / BSc i raglen Meistr integredig, dylech gyflwyno cais am CAS drwy dîm CAS y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr o 1 Mai.

| | |
|---|---|
| 1 | Cysylltwch â thîm CAS y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr i ofyn am cais CAS – cas.compliance@abertawe.ac.uk gan gynnwys eich **enw llawn** a'ch **rhif myfyriwr** yn yr e-bost. |
| 2 | Yna anfonir ffurflen cais am CAS atoch a bydd angen i chi ei llenwi'n llawn a'i dychwelyd drwy e-bost ynghyd â'ch pasbort cyfredol ac unrhyw fisâu cyfredol/blaenorol a ddefnyddiwyd i astudio yn y DU. |

| | |
|---|---|
| 3 | Ar ôl i chi gyflwyno eich cais am CAS a'ch dogfennau ategol, bydd tîm CAS y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr yn ystyried eich cais am CAS a'ch dogfennau ategol wrth gynnal y gwiriadau angenrheidiol. |
| 4 | Yn ystod y cyfnod hwn, argymhellwn eich bod yn cysylltu â thîm MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws i sicrhau bod eich cais am fisa wedi'i baratoi ac yn barod i'w gyflwyno pan fydd eich CAS yn cael ei ddarparu. |
| 5 | Os ydych chi'n bodloni holl ofynion UKVI, caiff eich CAS ei gymeradwyo a chyflwynir yr wybodaeth i'r Swyddfa Gartref. |
| 6 | Wedyn byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau bod eich CAS wedi'i gymeradwyo ynghyd â'ch datganiad CAS. Wedyn bydd modd ychwanegu'r rhif CAS ar y datganiad hwn at eich cais am Fisa Myfyriwr ar-lein, yn barod i'w gyflwyno. |

**Sylwer ei bod hi'n bosib y caiff amseroedd prosesu CAS eu hymestyn wrth ymdrin ag achosion cymhleth sy'n galw am ymholiadau ymhellach neu pan fydd oedi wrth gyflwyno dogfennau allweddol i dîm y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr.**

### Pa ddogfennau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy nghais nesaf am Fisa Myfyriwr a sut gallaf gyflwyno cais?

Cyflwyno cais y tu allan i'r DU
https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife/immigration/applying-for-a-visa/

Cyflwyno cais yn y DU
https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife/immigration/extending-your-student-route-visa-in-the-uk/

### Beth os hoffwn astudio'r radd Meistr integredig gyda Blwyddyn mewn Diwydiant neu Flwyddyn Dramor?

Bydd angen i chi ddilyn yr un amserlen a ddisgrifir uchod er mwyn trosglwyddo o radd Baglor i radd Meistr integredig gyda Blwyddyn mewn Diwydiant / Dramor h.y. ar ddiwedd Lefel 2.

### Rwyf eisoes ar y radd Meistr integredig. Beth os hoffwn fynd yn ôl i astudio fersiwn gradd Baglor y cwrs?

Nid ystyrir trosglwyddo o radd Meistr integredig i fersiwn radd Baglor y cwrs yn newid cwrs. Y cyfan y bydd angen i chi ei wneud felly fydd cyflwyno cais am drosglwyddo drwy'ch Cyfadran. Bydd yn bosib o hyd i chi gyflwyno cais am y Llwybr Graddedigion drwy gwblhau'r cymhwyster is.

### Beth os hoffwn wneud yr MSc yn hytrach na'r MEng / MSci / MChem / MPhys?

Cyrsiau gradd 4 blynedd integredig yw'r MEng /MSci /MChem / MPhys ac maent yn estyniad o fersiwn BEng/BSc y radd.

Mae'r **MSc** yn gwrs lefel Meistr ar wahân y gall myfyrwyr gyflwyno cais i'w astudio ar ôl cwblhau cwrs BEng/BSc. Gellir dod o hyd i fanylion llawn o ran sut i gyflwyno cais yn www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/

Mae'n rhaid i chi gwblhau gradd israddedig yn llwyddiannus **cyn** y gallwch gael CAS newydd i gyflwyno cais am fisa ar gyfer yr MSc. Gallwch gyflwyno cais am eich fisa naill ai dramor NEU yn y DU. Siaradwch â'ch Ysgol am fanylion ynghylch y gwahaniaeth academaidd rhwng yr MSc a chwrs Meistr integredig.

### Manylion cyswllt

**MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws–** international.campuslife@abertawe.ac.uk.
https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife

Y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr– cas.compliance@abertawe.ac.uk

ICL/AL Mehefin 2024